



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymraeg

Mwy na geiriau

Adroddiad Blynyddol 2022-23

llyw.cymru



Cynnwys

4	Cyflwyniad
4	Sut mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro
5	Cefndir
6	Crynodeb o'r Cynnydd
8	Thema 1 – Polisiâu a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg gan gynnwys data
9	Thema 2 – Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a'r dyfodol
15	Thema 3 – Rhannu arferion gorau a dull galluogi
20	Atodlen A
30	Rhestr o Fyrddodau ac Acronymau

“Nerth, o sgwrs i sgwrs, a gaf: - drwy rannu’r

holl driniaeth, fe wellaf.

Ond yn wir mendio a wnaif

yn gynt yn fy iaith gyntaf.”

Astudiaeth achos – Dysgu Cymraeg

Dysgwr y Flwyddyn 2023

Dysgwr y flwyddyn y gystadleuaeth genedlaethol hon a drefnwyd gan yr Eisteddfod Genedlaethol a’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol oedd Alison Cairns ac un o’r rhai a gyrrhaeddodd y rownd derfynol oedd Manuela Niemetscheck:

Daw **Alison Cairns** yn wreiddiol o’r Alban ac mae’n byw yn Ynys Môn. Dechreuodd ddysgu Cymraeg drwy wrando ar BBC Radio Cymru, gwyllo S4C a darllen llyfrau ei merch. Erbyn hyn mae hi’n defnyddio’r Gymraeg yn hyderus bob dydd, heb erioed fod wedi cael gwrs Gymraeg ffurfiol. Y Gymraeg yw iaith y teulu, ac mae Alison sy’n gweithio yn y sector gofal yn sylweddoli pa mor bwysig y gall defnyddio’r Gymraeg fod wrth ddelio â chleifion.

Mae **Manuela Niemetscheck** yn hano o Ganada yn wreiddiol ac yn byw ym Methesda ac yn gweithio fel seicotherapydd yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Cafodd ei hysbrydoli i ddysgu’r Gymraeg nid yn unig oherwydd ei theulu a’i chymuned, ond hefyd am ei bod yn credu bod defnyddio’r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn hynod o bwysig ac mae hi wedi gwneud cyfraniad enfawr at ddarparu gwasanaethau Cymraeg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Cyflwyniad

Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Pan lansiais gynllun Mwy na geiriau y llynedd, dywedais yn glir fy mod yn gweld darparu'r Cynnig Rhagweithiol a datblygu sgiliau iaith ein gweithlu fel elfen unigryw o'n system iechyd a gofal cymdeithasol sy'n falch o ddarparu gwasanaethau mewn gwlad ddwyieithog.

Rwyf wedi bod yn falch o weld y cynnydd sydd wedi'i wneud ers cyflwyno'r cynllun a'r sylfeini a osodwyd a fydd yn galluogi sefydliadau i adeiladu ar y gwaith hwn wrth symud ymlaen. Mae datblygiadau yn cynnwys cyflwyno cwrs ymwybyddiaeth iaith gorfodol ar gyfer holl staff y gwasanaeth iechyd gyda chyrsgiau tebyg yn cael eu datblygu ar gyfer gofal cymdeithasol a'r sector addysgu uwch; uwch-reolwyr yn cymryd rhan yn ein rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog; y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gweithio gyda'r byrddau iechyd

a'r ymddiriedolaethau i gynyddu hyder staff i siarad Cymraeg; cyflwyno ap GIG Cymru cwbl ddwyieithog a sefydlu bwrdd cynghori i fonitro a chraffu ar y cynnydd gyda'r cynllun.

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol a bydd gweithredu'r cynllun Mwy na geiriau yn helpu i sicrhau fod siaradwyr Cymraeg yn gallu derbyn y gofal y maent yn ei haeddu a'i angen.



Sut mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro

Yr adroddiad hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf ar gynllun Mwy na geiriau 2022-27 ac mae'n adeiladu ar y fframweithiau blaenorol gyda'r nod o ddatblygu a chryfhau ymhellach darpariaeth Gymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n cwmpasu'r flwyddyn gychwynnol o weithredu Mwy na geiriau (Awst 2022 – Awst 2023). Mae'r adran gyntaf

yn rhoi trosolwg yn ôl thema o'r hyn a gyflawnwyd a rhai o'r heriau a wynebwyd. Mae Atodlen A yn cynnwys diweddariad ar y pwyntiau gweithredu perthnasol o'r cynllun Mwy na geiriau. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd gan y rhanddeiliaid sy'n gyfrifol am y camau gweithredu yn y cynllun.

Cefndir

Mae iaith a chyfathrebu yn elfennau hanfodol o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r miloedd lawer o staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn rhyngweithio ag unigolion sawl gwaith y dydd, ac mae'r mwyafrif helaeth o'r rhyngweithiadau hyn yn cynnwys cyfathrebu. Mae'r egwyddor honno o gyfathrebu wrth wraidd y cynllun Mwy na geiriau oherwydd ei bod yn ymwneud â diwallu anghenion iaith defnyddwyr ac felly gwella ansawdd gofal.

Yng Nghymru, mae bron i 200,000 o staff yn darparu iechyd a gofal cymdeithasol, y cyflogwr mwyaf yng Nghymru o bell ffordd. Felly, mae cyfle enfawr i iechyd a gofal cymdeithasol ddod yn esiampl o ran darparu gwasanaethau Cymraeg a chyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu'r defnydd o'r iaith a nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Lansiwyd y cynllun Mwy na geiriau 2022-27 newydd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2022. Datblygwyd y cynllun pum mlynedd uchelgeisiol gan grŵp arbenigol, yn dilyn gwerthusiad annibynnol o'r cynllun pum mlynedd cyntaf *Mwy na geiriau*. Dangosodd ymchwil, i lawer o siaradwyr Cymraeg, fod gallu cael mynediad at wasanaethau yn eu hiaith eu hunain yn

gwneud gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol i'w profiad cyffredinol ac, mewn llawer o achosion, eu canlyniadau iechyd a llesiant. Ond roedd hefyd yn dangos bod pobl yn aml yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt a'u bod yn amharod i ofyn pan na chynigiwyd gwasanaethau Cymraeg. Dyna pam wrth wraidd y strategaeth y mae egwyddor y Cynnig Rhagweithiol sy'n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach nag ar y claf neu'r defnyddiwr gwasanaeth i orfod gofyn amdanynt.

Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o gamau gweithredu o dan bum pwnc:

- **Diwylliant ac arweinyddiaeth**
- **Cynllunio a pholisiau'r Gymraeg**
- **Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu**
- **Rhannu arfer gorau**
- **Monitro Cynnydd**

Ym mis Awst 2023 sefydlwyd Bwrdd Cyngori i fonitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn y cynllun Mwy na geiriau.

Crynodeb o'r Cynnydd

Thema trosfwaol: Diwylliant ac Arweinyddiaeth

Mae diwylliant ac arweinyddiaeth yn thema gyffredinol yn y cynllun Mwy na geiriau. Nododd y grŵp gorchwyl a gorffen a ddatblygodd y cynllun bod angen brys i brif ffrydio'r Gymraeg ac i gryfhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd systemau ar bob lefel. Nododd hefyd yr angen am newid diwylliannol mawr er mwyn cyflawni'r newid a'r gwelliant gofynnol. Mae'n rhaid i ni greu diwylliant lle mae Cymraeg yn perthyn i ni i gyd; lle mae balchder mewn gweithio mewn system iechyd a gofal cymdeithasol ddwyieithog sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ddarparu cynnig Cymraeg rhagweithiol.

Amcanion perfformiad personol

Yn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r cynllun Mwy na geiriau, gosodwyd amcanion perfformiad personol ar gyfer GIG Cymru a chyrrff gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod Mwy na geiriau yn cael ei weithredu. Nod yr amcanion oedd sicrhau bod y sefydliadau yn dangos sut maent wedi darparu arweinyddiaeth i ddatblygu a rhaeadru diwylliant sefydliadol o berthyn sy'n cefnogi dwyieithrwydd a phrif ffrydio'r Gymraeg mewn cynlluniau a darparu gwasanaethau.

Roedd hyn yn helpu'r sefydliadau i ganolbwyntio ar wella data ar sgiliau iaith y gweithlu i gefnogi cynllunio gwasanaethau i alluogi'r Cynnig Rhagweithiol, sicrhau bod staff yn cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth Gymraeg a bod Pencampwyr Bwrdd yn cael eu penodi yn sefydliadau GIG Cymru. Roedd yr amcanion hyn hefyd ar yr agenda ar gyfer y cyfarfodydd blynyddol a gynhaliwyd rhwng y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chadeiryddion Bwrdd GIG Cymru.

Newid ymddygiad

Yn ystod 2022-23 dechreuodd Gofal Cymdeithasol Cymru weithio gyda Phrifysgol Bangor i beilotu'r rhaglen ARFer mewn 3 chartref gofal yng Ngogledd Cymru. Mae dau gartref preswyl yn Wrecsam a Sir Ddinbych yn rhan o'r peilot. Mae'r ffocws ar newid ymddygiad er mwyn normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliad gofal – gan greu diwylliant lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.

Bydd cam 2 y prosiect yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r peilot er mwyn adnabod dulliau i gefnogi gweithwyr i weithredu newid diwylliannol i hybu a gwreiddio'r defnydd o wasanaethau Cymraeg, er mwyn datblygu fframwaith a model y gellid eu cyflwyno ar draws y sector gofal yng Nghymru.

Arwain mewn gwlad ddwyieithog

Er ei fod yn darged tymor canolig (i'w gwblhau erbyn 2025) yn y cynllun Mwy na geiriau, mae uwch reolwyr mewn cyrff iechyd a gofal cymdeithasol eisoes wedi dechrau cymryd rhan yn y rhaglen Arwain mewn gwlad ddwyieithog. Mae'r rhaglen hon yn dwyn ynghyd uwch arweinwyr o'r sector cyhoeddus yng Nghymru i drafod sut yn union y gallant arwain eu sefydliad mewn ffordd a fydd yn cyfrannu at ysbryd a llythyren Cymraeg 2050. Mae dwy garfan beilot o arweinwyr ar draws y sector cyhoeddus wedi cwblhau'r rhaglen ac fe ddechreuodd y drydedd garfan ar yr hyfforddiant ym mis Mehefin 2023. Cryfder y rhaglen yw ei bod yn fan lle gall pobl ddysgu oddi wrth ei gilydd ac ar ôl y gweithdy bydd y rhai sy'n mynychu yn enwebu dau enwebai i weithio ar asesiad gwaelodlin am y diwylliant o amgylch Cymraeg ym mhob sefydliad. Y canlyniad disgwylidig, ar ôl y gweithdy, yw y bydd pawb yn hyrwyddo diwylliant o arweinyddiaeth sefydliadol lle gall y Gymraeg ffynnu.

Roedd tystiolaeth o werthuso'r cynllun Mwy na geiriau cychwynnol yn awgrymu, er ei fod wedi llwyddo i ennill calonnau a meddyliau llawer o lunwyr polisi lefel strategol ac ymarferwyr rheng flaen, bod yna fwy o her wedi bod o ran newid y diwylliant a'r meddylfryd ar y lefel gynllunio weithredol. Bydd arweinyddiaeth yn sbardun allweddol ar gyfer gweithredu'n llwyddiannus Mwy na geiriau. Mae angen arweinyddiaeth gref i danategu'r camau angenrheidiol i hyrwyddo'r Gymraeg, i ysgogi newid ac i greu diwylliant lle mae pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd yn y gwaith.

Er bod enghreifftiau o fentrau rhagorol ar draws y sector, mae'r rhain yn aml wedi cael eu sbarduno gan ymdrechion a brwdfrydedd swyddogion iaith Gymraeg ac ymarferwyr unigol yn hytrach na chael eu hysbrydoli gan arweinyddiaeth systemau i sbarduno newid system. Er mwyn cyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun Mwy na geiriau, rhaid dangos arweinyddiaeth ar bob lefel o sefydliad.

Cyfarfodydd Bwrdd Arweinyddiaeth GIG Cymru

Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd â Phrif Weithredwyr GIG Cymru fel rhan o gyfarfodydd rheolaidd Bwrdd Arweinyddiaeth GIG Cymru. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu cynllun Mwy na geiriau, mae'r cynllun wedi bod ar yr agenda ar gyfer dau gyfarfod lle trafodwyd pwysigrwydd gweithredu'r cynllun yng nghyd-destun darparu gofal o ansawdd uchel ynghyd â chyfleoedd i weithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gyflwyno cyrsiau codi hyder i staff.

Thema 1

Polisiau a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg gan gynnwys data

Polisiau, canllawiau a mentrau

Bydd cael y cynlluniau a'r polisiau cywir ar waith yn helpu i sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ddarparu'n llwyddiannus.

Mae'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu nifer o bolisiau, canllawiau a mentrau ar gyfer GIG Cymru a gwasanaethau cymdeithasol ac mae'r polisiau hyn yn destun asesiadau effaith ar y Gymraeg er mwyn ystyried effaith y polisi, yn gadarnhaol ac yn negyddol, ar y Gymraeg. Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru hefyd yn cynnwys gofyniad bod Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTPs) byrddau iechyd lleol yn cael eu cynllunio a'u cyflawni yn unol â'r cynllun Mwy na geiriau. Mae'r rhan fwyaf o IMTPs yn cynnwys cyfeiriadau at y Gymraeg a Mwy na geiriau, er y gellid ymgorffori'r Gymraeg yn fwy eglur yn y cynlluniau gyda dangosyddion perfformiad mwy ystyrion ynghlwm wrth rai ohonynt.

Cynllun Strategol y Gweithlu ar gyfer strategaeth y Gymraeg

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wedi cynhyrchu strategaeth ddrafft "Cynllunio'r Gweithlu Strategol ar gyfer y Gymraeg" yn unol â gweithredu cam 30 o'r "Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol". Nod y strategaeth yw helpu sefydliadau i gynllunio ar gyfer sgiliau Cymraeg ac mae awydd ymhlith byrddau iechyd i ddechrau Grŵp Gweithredu o amgylch y strategaeth hon. Mae'r syniad hwn yn rhywbeth a fyddai'n elwa o gael ei ddatblygu ymhellach

dros y misoedd nesaf i sicrhau bod strategaeth gadarn a champau gweithredu clir ar waith i helpu i sicrhau gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol gyda'r sgiliau a'r gallu i ddiwallu anghenion pobl yng Nghymru sydd angen gwasanaethau Cymraeg.

Dyletswydd Ansawdd

Mae cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg yn ymwneud â darparu gofal o safon. Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn amlygu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wasanaethau iechyd diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Pwrpas y ddyletswydd ansawdd yw sicrhau bod cyrff GIG Cymru yn sicrhau gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu darparu, ac mae'r Gymraeg yn rhan annatod o hyn. Cyflwynwyd y Ddyletswydd Ansawdd ar 1 Ebrill 2023 gyda'r canllawiau statudol yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg a'r cynllun Mwy na geiriau; mae'n gyrru canlyniadau iechyd o safon i bobl Cymru drwy annog sefydliadau i sicrhau mynediad cleifion at wasanaethau yn yr iaith Gymraeg. Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol i ystyriaethau Cymraeg gael eu hymgorffori yn niwylliant ansawdd a chael eu hystyried drwy lens y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal. Rhaid cynnwys cyfrifoldebau iaith Gymraeg mewn adroddiadau ansawdd.

Thema 2

Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a'r dyfodol

Mae datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn broses tymor byr a hir. Mae Mwy na geiriau'n mabwysiadu dull gweithredu dwy ran lle mae gwaith yn cael ei wneud nawr i ddatblygu sgiliau'r gweithlu presennol, gan fabwysiadu dull mwy strategol er mwyn deall pa sgiliau sydd eu hangen ar weithlu'r dyfodol a chynllunio yn unol â hynny.

Cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Mae sgiliau Cymraeg y gweithlu yn hanfodol er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau llwyddiant cynllun Mwy na geiriau. Y gobaith yw y bydd cydweithwyr eisiau dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau presennol. Ond nid yw hynny'n golygu bod yn rhaid i bawb fod yn rhugl yn y Gymraeg. Gall dweud ychydig eiriau yn Gymraeg fynd yn bell a hyd yn oed os nad yw staff yn siarad Cymraeg gall dealltwriaeth o anghenion siaradwyr Cymraeg wneud gwahaniaeth mawr. Un o'r camau gweithredu yn y cynllun Mwy na geiriau yw bod holl weithwyr GIG Cymru a gofal cymdeithasol yn ymgymryd â chwrs ymwybyddiaeth iaith a fydd yn egluro pa mor bwysig yw'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau ac i anghenion cleifion. Cyflwynwyd y cwrs hwn ym mis Tachwedd 2022 (gweler WHC/2022/28) ac fe'i datblygwyd gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Gellir ei gyrchu drwy'r system Cofnod Staff Electronig (ESR) a llwyfannau Learning@Wales. Mae'r cwrs yn orfodol i holl staff GIG Cymru (gan gynnwys y rhai nad ydynt yn delio'n uniongyrchol â chleifion/defnyddwyr gwasanaeth) a bydd angen ei ail-wneud bob tair blynedd.

Mae'r ymateb cychwynnol i'r cwrs newydd wedi bod yn gadarnhaol iawn ac fel cwrs gorfodol mae ganddo'r potensial i gyfrannu at hwyluso darpariaeth gwasanaeth gofal iechyd dwyieithog ledled y wlad. Dyma beth o'r adborth a gafwyd i'r cwrs:

“Rhoddodd fewnwelediad go iawn i mi o'r rhesymeg dros nid yn unig helpu i gadw'r Gymraeg yn “fyw” ond bydd yn fy ysgogi i geisio dysgu a defnyddio ychydig o eiriau ac ymadroddion Cymraeg.”

“O safbwynt cyrsiau fel hyn, roedd hwn yn un da. Braff gweld dolenni i gyrsiau am ddim y gall defnyddwyr eu cyrchu. Roedd profiadau cleifion go iawn i'w groesawu.”

“Wedi hoffi'n fawr y defnydd o fideos gan fod hyn wir yn helpu i ddangos profiad byw ac mae'n effeithiol. Efallai ychydig mwy o fideos.”

“Roeddwn i'n teimlo ei fod yn drosolwg defnyddiol o'r materion allweddol, ac yn ddefnyddiol wrth godi ymwybyddiaeth. Roedd hefyd yn dda yn chwalo rhai mythau cyffredin.”

Profiad defnyddiwr:

“Nid yw’n ymarferol disgwyl i bawb allu cyfathrebu yn Gymraeg ond fe all pawb ddangos ychydig o barch a hyblygrwydd. Mae angen i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol gymryd cam yn ôl a dangos ychydig o wyleidd-dra proffesiynol. Does dim raid iddo gostio arian. Mae’n ymwneud ag agwedd, yr awydd i wella.”

Mae’r tabl canlynol yn dangos canran y staff ym mhob bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth ac awdurdod iechyd arbennig sydd wedi cwblhau’r cwrs ymwybyddiaeth o’r Gymraeg. Yn eu hadroddiadau ar weithredu blwyddyn gyntaf cynllun Mwy na geiriau, mae’r byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a’r awdurdodau iechyd arbennig wedi amlinellu eu hymrwymiad i godi’r cyfraddau cwblhau wrth symud ymlaen.

Canran y staff ym mhob bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth ac awdurdod iechyd arbennig sydd wedi cwblhau’r cwrs ymwybyddiaeth o’r Gymraeg

Sefydliad	% sydd wedi cwblhau’r cwrs (ffigurau ar gyfer Haf 2023)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Dim ffigur wedi’i ddarparu – mae’r bwrdd iechyd yn dweud bod problemau cychwynnol wedi bod gyda’r modiwl newydd, ond mae’r ymatebion wedi bod yn gadarnhaol hyd yma.
Iechyd a Gofal Digidol Cymru	25%
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru	34%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro	47%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	54%
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	56%
Addysg a Gwella Iechyd Cymru	61%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	63%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	68%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	70%
Iechyd Cyhoeddus Cymru	71%
Bwrdd Iechyd Addysgu Prifysgol Powys	73%
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru	85%

Yn ogystal â chwrs ymwybyddiaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, mae modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei ddatblygu gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Mae yn y camau olaf o ddatblygiad. Bydd yr adnodd hwn ar gael i bobl sy'n dod i mewn i'r sector a gweithwyr presennol. Bydd hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth, a sut a pham mae'r Gymraeg yn sgil ar unrhyw lefel ac yn rhan annatod o ofal. Mae'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol hefyd wedi lansio cwrs "Mwy na geiriau - Cyfathrebu mewn lechyd a Gofal" sy'n fyw ar wefan y Coleg Gymraeg. Nod yr adnodd yw cyflwyno ymwybyddiaeth iaith mewn iechyd a gofal i fyfyrwyr addysg uwch ac ymarferwyr proffesiynol i feithrin hyder myfyrwyr i ddefnyddio eu sgiliau Gymraeg gyda chleifion a chydweithwyr yn GIG Cymru. **Mwy na Geiriau: Cyfathrebu mewn lechyd a Gofal (porth.ac.uk)**

Sgiliau Gymraeg lefel cwrteisi

Gan adeiladu ar y cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, un o'r camau gweithredu yn Mwy na geiriau yw cyflwyno'n raddol isafswm lefel "cwrteisi" o sgiliau Gymraeg. Mae gwaith wedi dechrau ar hyn i gyflwyno isafswm lefel "cwrteisi" o sgiliau Gymraeg gan wneud staff yn fwy ymwybodol o'r effaith gadarnhaol y gall dysgu Gymraeg ei chael ar unigolion sy'n defnyddio ac yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Er mwyn cyflawni hyn yn llwyddiannus mae angen ystyried nifer o ffactorau, er enghraifft diffinio beth yw ystyr Gymraeg lefel "cwrteisi" fel bod cysondeb ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a hefyd sicrhau bod y cysyniad yn cael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n sicrhau bod uwch reolwyr a'r gweithlu yn ei arddel.

Nid yw cyflwyno lefel cwrteisi Gymraeg yn golygu ein bod yn dechrau o'r dechrau gan fod gan y rhan fwyaf o sefydliadau fentrau amrywiol i sicrhau bod eu staff yn gallu dysgu Gymraeg sylfaenol. Mae nifer o enghreifftiau o sefydliadau wedi paratoi geirfaeodded syml ar gyfer staff switsfwrdd/derbynfa ac mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gwrs Gymraeg cwrteisi yn benodol ar gyfer staff derbynfydd. Mae gan eraill bosteri i annog eu staff i ddefnyddio Gymraeg sylfaenol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wrthi'n sefydlu Rhwydiaith ar gyfer y rhai sy'n dysgu neu sydd eisieu datblygu eu sgiliau a'u hymarfer yn siarad Gymraeg gydag eraill. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda eisoes wedi cynnig bod yr holl staff yn ennill sgiliau Gymraeg lefel 1 a fydd yn cael eu datblygu ymhellach yn 2023-24. Gwnaeth un sefydliad y pwynt bod dadansoddiad o'u lefel sgiliau staff yn awgrymu bod gan staff iau fwy o allu yn y Gymraeg, gan awgrymu y bydd lefel sgiliau eu staff yn cynyddu yn naturiol dros amser heb wneud ymyriadau ychwanegol.

Mae'r sector yn cytuno y byddai canllawiau cenedlaethol i gefnogi'r camau hyn o fudd ac mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru gyda'r Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol yn arwain ar y gwaith o ddatblygu cwrs cwrteisi gyda rhanddeiliaid perthnasol.

Meithrin hyder staff i siarad Gymraeg

Efallai y bydd nifer sylweddol o staff sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu siarad Gymraeg, ond efallai nad ydynt wedi defnyddio eu Gymraeg ers peth amser gan nad oes ganddynt hyder i ddefnyddio'r iaith. Mae'r Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol wedi datblygu Rhaglen Dysgu Gymraeg ar gyfer Iechyd a Gofal mewn ymateb i'r cynllun Mwy na

geiriau ac maent wedi sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer hyn gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u cynllun Cymraeg Gwaith. Dyma'r tro cyntaf i'r Ganolfan weithredu cynllun cenedlaethol yn benodol ar gyfer y sectorau iechyd a gofal. Mae'r cynllun yn adeiladu ar y cwrs 'magu hyder' a gyflwynwyd yn wreiddiol ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Dywed Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda bod y buddion eisoes yn cael eu teimlo wrth i staff a fynychodd y cwrs adrodd iddynt ddefnyddio rhywfaint o Gymraeg gyda defnyddwyr gwasanaeth, lle na fyddent wedi gwneud hynny o'r blaen.

Gwnaed cyflwyniad i Fwrdd Arweinyddiaeth GIG Cymru yn Ebrill 2023, a chafwyd cefnogaeth gref i'r cynnig. Mae'r Ganolfan wedi penodi uwch-swyddog prosiect i arwain ar y gwaith hwn. Bydd saith tiwtor llawn amser yn cael eu lleoli yn y byrddau iechyd canlynol, a byddant yn gweithredu cynlluniau penodol fydd wedi'u cytuno gyda phob bwrdd iechyd. Bydd y Ganolfan Genedlaethol yn monitro ac yn olrhain yr hyn sy'n cael ei gyflawni.

1. [Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr](#)
2. [Bwrdd Iechyd Bae Abertawe](#)
3. [Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg](#)
4. [Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro](#)
5. [Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan](#)
6. [Bwrdd Iechyd Addysgu Powys](#)
7. [Bwrdd Iechyd Hywel Dda](#)

Yn ogystal â'u gwaith gyda'r byrddau iechyd, bydd y tiwtoriaid yn darparu cymorth i godi hyder yn sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn unol â chapasiti a galw. Yn ogystal â gosod tiwtoriaid o fewn y byrddau iechyd, mae'r ganolfan hefyd mewn trafodaethau i dreialu amrywiol brosiectau llai gyda chynulleidfaoedd penodol gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Sgiliau Cymraeg o fewn gyrfaedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Wrth edrych ar y sgiliau tymor hwy a'r Gymraeg o fewn gyrfaedd yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn parhau i hyrwyddo hyn gan ddefnyddio porthol Tregyrfa / Careersville, adnodd digidol rhyngweithiol sy'n cynnwys gwybodaeth am swyddi a chyfleoedd ym maes iechyd a gofal yng Nghymru. Dyluniwyd porthol Tregyrfa i dargedu siaradwyr Cymraeg ac mae eisoes yn cael ei ddefnyddio i ddenu gweithlu'r GIG Cymru yn y dyfodol. Yn allanol mae AaGIC wedi mynychu nifer o yrfaedd/digwyddiadau cyhoeddus lle mae'r stondin wedi bod yn gwbl ddwyieithog i sicrhau eu bod yn gallu ymateb i anghenion siaradwyr Cymraeg a allai fod yn ystyried gyrfaedd yn GIG Cymru.

Cynhaliodd Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) ymgyrch iaith Gymraeg i wella hyder y sawl sy'n gweithio yn y sector ac sydd gydag ychydig o sgiliau Cymraeg ac i annog gweithwyr i ddysgu Cymraeg.

Sgiliau iaith Gymraeg a'r ESR

Mae angen i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol nodi bylchau sgiliau Cymraeg eu gweithlu mewn meysydd allweddol a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â nhw er mwyn deall gofynion eu gweithlu'n llawn. Yn GIG Cymru, mae'r Cofnod Staff Electronig (ESR) yn cofnodi ac yn mapio argaeledd sgiliau a chymwyseddau allweddol staff, gan alluogi cyflogwyr a rheolwyr ar draws y sector i ddefnyddio'r sgiliau hyn yn y ffordd orau.

Pan lansiwyd strategaeth flaenorol Mwy na geiriau yn 2016, roedd nifer y gweithwyr a oedd wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg yn yr ESR yn amrywio ar draws byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru. Erbyn 2020, roedd cynnydd wedi bod yng nghyfran y staff a oedd wedi cofnodi eu sgiliau a'u gallu Cymraeg yn y system ar draws bron pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd ac awdurdod arbennig iechyd (er bod lefel y cynnydd a gyflawnwyd yn amrywio – gweler y tabl isod).

Gellir priodoli'r cynnydd i'r strategaeth Mwy na geiriau, a chefnogaeth Swyddogion y Gymraeg ar draws byrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd arbennig i annog staff i gofrestru eu lefel sgiliau Cymraeg. Mae rhai sefydliadau yn ei gwneud yn ofynnol bod dros 90% o staff yn cwblhau eu proffil sgiliau Cymraeg ac rydym mewn sefyllfa nawr lle mae sefydliadau'n defnyddio'r ESR i fynd ati i gynllunio gwasanaethau Cymraeg.

ESR Cyfraddau cwblhau sgiliau Cymraeg

Sefydliad	Cyfradd cwblhau (%) 2023	Cyfradd cwblhau (%) 2020
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	32%	14%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	36%	37%
Addysg a Gwella Iechyd Cymru	44%	22%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	74%	17%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	83%	65%
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	86%	85%
Bwrdd Iechyd Addysgu Prifysgol Powys	87%	74%
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru	89%	94%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	92%	84%
Iechyd Cyhoeddus Cymru	93%	39%
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru	94%	93%
Iechyd a Gofal Digidol Cymru	95%	Nid oedd IGDC wedi'i sefydlu tan 2021
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	97%	81%

Strategaethau sgiliau dwyieithog

Mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau strategaeth sgiliau dwyieithog sy'n rhoi arweiniad i reolwyr recriwtio ar sut i asesu gofynion iaith swyddi ond ni ddilynir y canllawiau hyn bob amser. Mae un bwrdd iechyd wedi cydnabod bod nifer y swyddi sydd wedi cael eu hysbysebu fel Cymraeg hanfodol, a/neu gyda lefel o Gymraeg wedi ei diffinio'n benodol, yn isel. Mae galw am arweiniad ar lefel genedlaethol i ddiffinio lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ym mhob hysbyseb swydd ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid eraill i baratoi canllawiau ar lefel genedlaethol mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid eraill.

Profiad defnyddiwr:

“Mae'n holl weithwyr cymdeithasol dros y blynyddoedd wedi bod yn siarad Cymraeg. Mae hynny'n hollbwysig i ni. Fel mam fi yw'r un sy'n siarad dros X a rwy'n fwy cysurus yn y Gymraeg. Ond mae'r holl glinigau iechyd yn Saesneg; rydym yn ei chael hi'n anodd deall weithiau. Pan fo rhywun yn siarad Cymraeg, mae'n gwneud gwahaniaeth.”

Ymgyrch genedlaethol ymwybyddiaeth a hyrwyddo i wneud staff yn fwy ymwybodol o'r gwahaniaeth cadarnhaol y gall defnyddio'r Gymraeg ei wneud

Gweithred tymor canolig yn y cynllun Mwy na geiriau yw cychwyn ymgyrch ymwybyddiaeth a hyrwyddo genedlaethol i wneud staff yn fwy ymwybodol o'r gwahaniaeth cadarnhaol y gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg ei wneud i'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Er mai gweithred ar gyfer y tymor canolig yw hon mae AaGIC wedi cael cyfres o gyfarfodydd a thrafodaethau gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, ac yn ogystal wedi sefydlu grŵp llywio ar y cyd, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno cyfres o negeseuon i'r marchnadoedd targed. Maen nhw wedi bod yn datblygu cynlluniau gyda Gofal Cymdeithasol Cymru o amgylch eu gwefan Tregyrfa / Careersville i annog pobl o bob oed i ystyried gyrfaedd yn GIG Cymru gyda'r neges ychwanegol bod “tipyn bach o Gymraeg yn mynd yn bell”. Cafodd hyn ei dreialu gyda chynulleidfadau dwyieithog yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf, a chafodd ymateb cynnes iawn gan aelodau o'r cyhoedd a ymwelodd â stondin AaGIC yn y sioe.

Thema 3

Rhannu arferion gorau a dull galluogi

Elfen bwysig o gyflawni'r amcanion yn llwyddiannus yn y cynllun Mwy na geiriau yw y gall gweithwyr iechyd proffesiynol gyfathrebu a rhannu arfer da. Mae yna enghreifftiau o arfer da, ond nid ydynt bob amser yn cael eu rhannu'n ehangach o fewn sefydliadau neu du hwnt.

Rhannu arfer gorau

Mae porth i gasglu a rhannu enghreifftiau arloesol o rannu arfer gorau o safbwynt gwasanaethau Cymraeg yn cael ei ddatblygu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i rannu enghreifftiau o arferion Cymraeg arloesol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â bod yn storfa ar gyfer gwybodaeth ac yn arweiniad ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

Sefydlwyd Hybiau Ymchwil ac Arloesi i gydlynu gweithgarwch Ymchwil a Datblygu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn y rhanbarthau. Mae rhai sefydliadau wedi dweud eu bod yn anelu at ymgysylltu â'r timau ymchwil ac arloesi perthnasol i drafod syniadau a chyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg ar draws eu sefydliadau. Mae Uned Polisi Iaith Gymraeg Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn cwrdd bob chwarter gyda Swyddogion y Gymraeg yn GIG Cymru. Maent wedi dosbarthu manylion cyswllt ar gyfer y canolfannau arloesi ac wedi annog Swyddogion yr Iaith Gymraeg i ymgysylltu â nhw.

Arweinwyr Gweithredol a swyddogion a phencampwyr y Gymraeg i gwrdd yn genedlaethol

Mae gan y rhan fwyaf o fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau grwpiau mewnol i helpu prif ffrydio'r Gymraeg. Mae yna hefyd Grŵp Rheolwyr Iaith GIG Cymru sy'n cyfarfod i rannu arfer gorau a thrafod gweithredu Mwy na geiriau. Mae'r cyfarfodydd hyn yn helpu gyda rhannu arfer gorau ac yn sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu ar faterion allweddol.

Mae rôl i Lywodraeth Cymru arwain ar sicrhau bod Arweinwyr Gweithredol y Gymraeg a Swyddogion a Phencampwyr y Gymraeg yn cyfarfod yn genedlaethol i rannu arfer gorau a dathlu llwyddiant. Bydd Cymuned Ymarfer yn cael ei sefydlu yn gynnar yn 2024 i fwrw ymlaen â hyn.

Dathlu llwyddiant

Mae gan rai sefydliadau wobrau Cymraeg blynyddol lle mae categori ar gyfer dysgwyr Cymraeg neu ar gyfer gwasanaethau Cymraeg. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cyflwyno gwobr Gymraeg i'w Gwobrau Cydnabod Staff, yn rhannol oherwydd cynllun newydd Mwy na geiriau. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd yn gwneud hynny ac nid oes gwobr genedlaethol yn benodol i'r Gymraeg. Nid oes gan Wobrau'r GIG Cymru blynyddol, er enghraifft, gategori Cymraeg penodol ond gallai'r Gymraeg ymddangos mewn nifer o'i chategorïau, fel "gwella iechyd a llesiant" neu "ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn".

Gofal sylfaenol

Mae safonau iaith yn gymwys i wasanaethau gofal sylfaenol y GIG sy'n cael eu contractio gan y byrddau iechyd, gan gynnwys deintyddion y GIG.

Nid yw'r safonau iaith yn berthnasol ar hyn o bryd i ddarparwyr annibynnol. Er hynny, ers 2019 gosodwyd dyletswyddau iaith ar gontractwyr gofal sylfaenol annibynnol, sy'n cynnwys:

- hysbysu'r bwrdd iechyd lleol os ydynt yn darparu gwasanaethau Cymraeg
- darparu fersiynau Cymraeg o bob dogfen neu ffurflen sy'n cael eu darparu iddo gan y bwrdd iechyd lleol
- sicrhau fod unrhyw arwydd neu hysbysiad newydd yn ddwyieithog. Gall contractwyr ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu'r byrddau iechyd lleol at y diben hwn.
- annog staff i wisgo bathodyn neu laniard i ddangos eu bod yn gallu siarad neu'n dysgu Cymraeg
- sefydlu a chofnodi dewis iaith y claf
- annog a chynorthwyo staff i ddefnyddio gwybodaeth a/neu fynychu cyrsiau hyfforddiant neu ddigwyddiadau sy'n cael eu darparu gan y bwrdd iechyd lleol

Yn dilyn cyflwyno'r dyletswyddau hyn cynhaliwyd arolwg yn 2019 a ddangosodd nad oedd y rhan fwyaf o bractisiau Meddyg Teulu yn ymwybodol o'r Cynnig Rhagweithiol ac er bod 75% o bractisiau yn credu bod ganddynt lefel ddigonol o siaradwyr Cymraeg, roedd llai na hanner o'r staff hynny oedd yn siarad Cymraeg yn dweud eu bod yn gwisgo bathodyn/laniard iaith Gwaith.

Cynhelir arolwg newydd yn 2024 gyda'r nod o ddeall y ddarpariaeth Gymraeg ac arferion ar draws darparwyr gofal sylfaenol, o ran y dyletswyddau Cymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol. Bydd y canfyddiadau yn cael eu defnyddio i lywio mentrau i wella gwasanaethau Cymraeg ymhellach.

Marcwyr gweledol i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg

Mae tystiolaeth o'r sector yn awgrymu bod y rhan fwyaf o staff cymwys yn gwisgo marcwyr gweledol (fel bathodyn iaith Gwaith) i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg ac i gyfleu'r neges bod y Gymraeg yn rhan "normal" bob dydd o ddarparu gwasanaethau. Dywedodd un bwrdd iechyd, er na allent fod yn sicr fod pob siaradwr Cymraeg yn gwisgo bathodyn neu laniard iaith Gwaith, eu bod wedi gweld cynnydd sylweddol yn y ceisiadau am fathodyn iaith Gwaith o ganlyniad i gyflwyno'r hyfforddiant gorfodol i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn gynharach yn y flwyddyn. Dywedodd rhai sefydliadau hefyd yr hoffent gael cyllid i gynhyrchu deunydd iaith Gwaith. Mae gan un bwrdd iechyd gynllun Siopwr Cudd blynyddol i weld a oes gan staff a derbynfydd farcwyr gweledol i ddangos bod gwasanaeth Cymraeg yn cael ei ddarparu, sy'n fenter y gallai eraill ei dilyn.

Mae'n ymddangos fel petai lleiafrif bach o staff rhugl sy'n siarad Cymraeg mewn rhai sefydliadau yn amharod i ddefnyddio marcwyr gweledol i nodi eu hunain fel siaradwr Cymraeg. Cyfeiriwyd at bryderon ynghylch cael cyfrifoldebau ychwanegol a diffyg hyder wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ar gyfer hyn. Mae laniardiau "dysgwr Cymraeg" bellach yn cael eu darparu gan fod llawer o staff yn teimlo'n fwy cyfforddus yn gwisgo'r marcwyr "dysgwr Cymraeg" gan ei fod yn gwahodd o leiaf rywfaint o ymgysylltiad yn y Gymraeg gan ddefnyddwyr gwasanaeth heb godi disgwyliadau y gallant gynnal sgwrs lawn yn Gymraeg.

Yn ogystal â staff yn gwisgo bathodynau, mae rhai sefydliadau'n defnyddio'r symbol "Iaith Gwaith" yn fwy eang gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn dweud ei fod yn defnyddio magnetau "Cymraeg" i adnabod cleifion Cymraeg eu hiaith, gan adeiladu ar gynllun a gyflwynwyd yn wreiddiol gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, a hwyluso darparu gwasanaethau dwyieithog ac egwyddor y Cynnig Rhagweithiol yn ei wardiau. Mae hefyd

yn defnyddio STREAM – offeryn cynllunio rhyddhau a ddatblygwyd yn fewnol, sydd wedi'i gynllunio i gefnogi llif cleifion o fewn lleoliadau gofal iechyd. Mae system STREAM yn darparu gwybodaeth am ddewisiadau ieithyddol unigol pob claf; Gan ddefnyddio data sy'n cael ei dynnu'n awtomatig o WPAS, mae fersiwn ddigidol o'r bathodyn "Iaith Gwaith" oren yn cael ei arddangos ar y sgrin. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff sy'n defnyddio STREAM yn cael gwybod am bresenoldeb cleifion sy'n siarad Cymraeg ar eu wardiau.

Mae bwrdd iechyd Cwm Taf Morgannwg wedi datblygu ateb arloesol i arddangos a rhannu gwybodaeth i gleifion, gan gynnwys dewis iaith ar e-fyrddau gwyn. Nodwedd o'r system yw bod modd i staff glicio ar symbol a gweld yr holl gleifion y mae'r symbol hwnnw wedi'i ddefnyddio ar eu cyfer a lle mae'r cleifion wedi'u lleoli. Felly, gall staff weld pa gleifion sy'n siarad Cymraeg, a chynllunio rowndiau wardiau yn unol â hynny i ddarparu gwasanaeth Cymraeg.

Mewn rhai sefydliadau, er y gall systemau ddal dewis iaith, mae hyn yn dibynnu ar gwblhau'r maes dewis iaith yn y lle cyntaf a'r gallu i ddarparu'r gwasanaeth, er enghraifft gyda gwasanaeth GIG Cymru 111 a CAS (Gwasanaeth Asesu Clinigol).

Profiad defnyddiwr:

“Mae yna nifer o nyrsys sy'n siarad Cymraeg a nyrsys di-Gymraeg ar ward y plant a gwnaed pob ymdrech i sicrhau fod yna nyrs a oedd yn gallu siarad Cymraeg ar y shifftiau.”

Technoleg

Mae'r cyfrifoldeb am ddarparu a chefnogi technoleg iechyd a gofal yng Nghymru yn gyfrifoldeb i lechyd a Gofal Digidol Cymru sy'n helpu GIG Cymru i gynhyrchu systemau gofal iechyd digidol gan gynnwys meddalwedd a chaledwedd. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno gwasanaethau ar-lein i gleifion a datblygu arbenigwyr TG gofal iechyd.

Arweiniodd pandemig COVID-19 at newidiadau angenrheidiol yn y ffordd y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu yng Nghymru, gan gynnwys mwy o ddefnydd o lwyfannau digidol. Mae'r defnydd cynyddol hwn o dechnoleg ddigidol yn cyflwyno heriau a chyfleoedd yn y ffordd y mae defnyddwyr gwasanaeth yn ymgysylltu â gwasanaethau, yn ogystal â'r ffordd y mae'r rhai sy'n gweithio yn y sector yn cael mynediad at wybodaeth a hyfforddiant. Mae angen sicrhau bod y sector yn parhau i fod yn ymwybodol o'r risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer darpariaeth Gymraeg sy'n cyd-fynd â newidiadau darparu gwasanaethau fel y rhain. Wrth symud ymlaen, mae angen i Mwy na geiriau sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn cael ei hystyried fel rhan sylfaenol o newidiadau ehangach i ddarparu gwasanaethau.

Mae nifer o fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn ymgysylltu'n weithredol â IGDC i helpu i sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hymgorffori mewn technoleg ac mae llawer wedi gwneud y timau perthnasol yn eu sefydliad yn ymwybodol o'r Pecyn Cymorth Technoleg Ddwyeithog. Darparodd un sefydliad iechyd enghreifftiau o'i safleoedd Dysgu a Rennir - Gwella ac Y Tŷ Dysgu sydd â phrotocolau llym ar gyfer datblygu cynnwys dwyieithog. Darparodd Betsi Cadwaladr enghraifft o'r tîm Cymraeg wedi bod yn ymwneud yn weithredol â phrosiect ap Dementia – Amgylcheddau Cyfeillgar, gyda'r tîm yn cael ei gynrychioli ar y grŵp llywio o'r cychwyn.

Mae Hywel Dda yn ymgysylltu'n weithredol â IGDC a'u tîm digidol mewnol ar dechnolegau a systemau newydd gan sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o bopeth. Yn 2022-23, er enghraifft, mae Hywel Dda wedi gweithio'n agos gydag ORCHA i ddarparu platfform dwyieithog i rannu'r ystod o apiau sy'n gysylltiedig ag iechyd sydd ar gael i'w phoblogaeth. Er bod apiau unigol y tu hwnt i gwmpas cyrhaeddiad y bwrdd iechyd, mae'r platfform y mae'n eistedd arno wedi'i newid i sicrhau bod safonau hygyrchedd dwyieithog a digidol yn cael eu bodloni.

Un datblygiad mawr ar gyfer 2022-23 yw cyflwyno Ap GIG Cymru sydd wedi'i ddatblygu'n ddwyieithog o'r dechrau gyda siaradwyr Cymraeg yn profi prototeipiau mewn sesiynau un i un gyda'r datblygwr. Mae switsh iaith wedi'i ymgorffori yn yr ap ac mae'r dewis iaith yn cael ei bennu gan iaith eich ffôn, felly os mai Cymraeg yw'r iaith sydd wedi'i dewis ar gyfer eich dyfais symudol, yna dyna fydd yr iaith fydd wedi'i dewis ar gyfer yr ap. Mae hefyd yn bosib gadael adborth yn Gymraeg.

Hefyd yn IGDC, sefydlwyd grŵp technegol Cymraeg newydd, i sicrhau bod y portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol yn cydymffurfio â gofynion cynllun a safonau'r Gymraeg IGDC.

Ond mewn rhai ardaloedd mae'r cynnydd wedi bod yn araf. Er enghraifft, dim ond yn ddiweddar y gall system benodi cleifion newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gynhyrchu llythyrau apwyntiadau dwyieithog.

Mae angen gwneud mwy o waith ar rannu, cofnodi ac olrhain gwybodaeth rhwng systemau, gan gynnwys dewis iaith. Er bod modd cofnodi dewis iaith cleifion ar WPAS a Phorth Clinigol Cymru nid oes sicrwydd bod y data hwn yn cael ei gasglu ac yna'n cael ei rannu rhwng systemau.

Cyfieithu a therminoleg

Mae sefydliadau'n cynhyrchu mwy o ddeunydd dwyieithog nag erioed o'r blaen. Mae nifer o fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd wedi buddsoddi'n sylweddol yn eu hadnoddau cyfieithu yn ystod y blyneddodedd diwethaf (yn bennaf o ganlyniad i'w rhwymedigaethau statudol o dan safonau'r Gymraeg). Er enghraifft, roedd gan un bwrdd iechyd 3.5 cyfieithydd mewnol a oedd wedi cyfieithu bron i 1 miliwn o eiriau yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd tîm mewnol arall o gyfieithwyr yn cyfieithu'r rhan fwyaf o'r 4-5 miliwn o eiriau maen nhw'n eu cyfieithu bob blwyddyn.

Mae llawer o sefydliadau'n defnyddio meddalwedd Cof Cyfieithu ac yn ystyried y posibilrwydd o rannu'r adnodd hwn ag eraill a fydd yn helpu i wella amseroedd cyfieithu a hefyd yn arwain at safoni termau yn well a fydd o fudd i ofal cleifion yn y pen draw. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi sicrhau cyllid i ddatblygu adnodd geiriadurol a fydd yn cael ei gadw ar wefan Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) ac yn gysylltiedig â'r porth arfer gorau newydd yn IGDC.

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ddatblygu cronfa ddata derminolegol i'w defnyddio gan gyfieithwyr y GIG ledled Cymru. Maen nhw hefyd yn gweithio gyda sefydliadau iechyd eraill i ddefnyddio'r un feddalwedd cof cyfieithu - byddai hyn yn helpu i leihau costau ac amser. Fodd bynnag, mae hyn wedi digwydd yn ad-hoc yn hytrach nag yn systematig. Mae angen datblygu offer mwy ymarferol i gefnogi staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, er enghraifft Gair i Glaf yn ogystal â'r angen i ddatblygu corpws terminolegol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae terminoleg wedi'i chyfieithu yn y gorffennol, ond ni fu dull cenedlaethol ar y cyd i sicrhau cysondeb ynghylch yr hyn sy'n cael ei gyfieithu na'i safoni.

Monitro Cynnydd

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i rannu gydag arweinyddyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Sefydlwyd Bwrdd Cyngori i fonitro a chraffu ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu ym mis Awst 2023. Bydd y bwrdd cyngori yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog lle y gellid gwneud cynnydd pellach ac yn tynnu sylw at unrhyw bryderon sy'n dod i'r amlwg lle nad yw uchelgais yn cael ei chyflawni.

Data

Mae'r cynllun Mwy na geiriau yn ei gwneud yn glir bod angen data perthnasol ac amserol i fesur cynnydd yn erbyn y cynllun. Mae'r cynllun yn cynnwys camau i fapio'r data sydd ar gael a chyflwyno dangosfwrdd a fframwaith rheoli perfformiad i fesur cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu. Gan gydnabod pwysigrwydd data i'r cynllun Mwy na geiriau yn gyffredinol, y Cynnig Rhagweithiol a darparu gwasanaethau dwyieithog, bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu'r gwaith hwn cyn bo hir.

Atodlen A

Y Cynllun (Camau gweithredu ar gyfer 2022-23)

Cyf	Disgrifiad o'r cam gweithredu	Prif atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027	Diweddariad
1.	Byddwn yn gosod amcanion perfformiad personol i sicrhau bod cynllun Mwy na geiriau yn cael ei roi ar waith fel bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ymwreiddio yn amcanion blynyddol arweinwyr y sector, ei raeadru drwy sefydliadau, a'i ystyried mewn arfarniadau unigol perthnasol ar bob lefel. Bydd hyn yn cynnwys adroddiad Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (Fframwaith Adroddiad Blynyddol y Cynghorau) a Chadeiryddion byrddau'r GIG.	Yr holl gyrff iechyd a gofal cymdeithasol. Llywodraeth Cymru i arwain ar amcanion ar gyfer Cadeiryddion.	Tymor Byr	Cytunwyd ar amcanion gyda chadeiryddion byrddau'r GIG. Yr amcanion yw: <ul style="list-style-type: none"> Dangos sut y maent wedi darparu arweinyddiaeth ar ran y Bwrdd i ddatblygu a rhaedru diwylliant sefydliadol o berthyn sy'n cefnogi dwyieithrwydd a phrif -ffrydio'r Gymraeg i mewn i gynlluniau a darparu gwasanaethau. Mae'r Bwrdd wedi sicrhau ei hun ar gynnydd y camau gweithredu tymor byr a nodir yn y Fframwaith Mwy na geiriau ar gyfer cyrff iechyd. Mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Gwell data ar sgiliau iaith y gweithlu (dros 90% o sgiliau a gofnodwyd gan staff) i gefnogi cynllunio gwasanaethau i alluogi'r cynnig rhagweithiol. Dros 90% o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth Gymraeg Penodi pencampwyr y bwrdd ac arfer da wedi'i ddangos a chyflawni gwelliannau i'r system. <p>Mae trafodaethau yn parhau gydag ADSS Cymru ynghylch amcanion ar gyfer Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.</p>
2.	Dros amser, rydym yn disgwyl i'r holl staff iechyd a gofal cymdeithasol ddod i werthfawrogi'r gwahaniaeth cadarnhaol y gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg ei wneud i'r profiad o ofal, sy'n ddull tymor hir o weithredu. Byddwn yn ategu cyrsiau ymwybyddiaeth ieithyddol gyda dull cyfathrebu sy'n seiliedig ar wyddor ymddygiad er mwyn sicrhau bod popeth rydym ni fel arweinwyr yn ei ddweud am y Gymraeg, ac fel sefydliadau a phartneriaethau, yn cyfrannu at y strategaeth hon. Bydd y dull hwn o weithredu yn adeiladu ar yr hyfforddiant ac ar y naratif cadarnhaol a amlinellir yn y cynllun.	Llywodraeth Cymru / Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) / Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)	Tymor Byr i Ganolig	Yn ystod 2022-23 dechreuodd GCC weithio gyda Chanolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor i dreialu'r rhaglen ARFer i 3 chartref gofal ledled Gogledd Cymru. Mae dau gartref gofal preswyl yn Wrecsam a Sir Ddinbych wedi cofrestru ar gyfer y peilot. Mae hyn yn canolbwyntio ar newidiadau ymddygiadol i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliad gofal. Bydd Cam 2 y prosiect yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r peilot i nodi llwybrau a dulliau gweithredu i gefnogi cyflogwyr i weithredu newid diwylliannol i hyrwyddo a gwreiddio defnydd a phwysigrwydd gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn datblygu fframwaith a model cenedlaethol i'w gyflwyno ar draws y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Cyf	Disgrifiad o'r cam gweithredu	Prif atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027	Diweddariad
3.	Byddwn yn disgwyl i'r rheini sydd mewn rolau arwain gymryd rhan yn ein rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwylieithog. Mae'r rhaglen hon yn gweithio tuag at ymwreiddio ysbryd Cymraeg 2050 yn niwylliant sefydliadau a'u polisiâu. Yn rhy aml o lawer, mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried fel dim ond mater o gyfieithu neu ymarfer 'ticio'r boc' wrth ddatblygu polisi. Mae'r rhaglen hon, sy'n seiliedig ar werthoedd, yn mynd y tu hwnt i'r gwaith hwnnw i ddeall effaith bosibl holl elfennau ein gwaith ar ein hiaith — ac i ddefnyddio'r hyn sydd gennym i ddefnyddio mwy ar yr iaith.	Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Canolig	Mae'r rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwylieithog (AMGDd) yn archwilio newidiadau drwy brism dwylieithrwydd. Mae'r rhaglen yn dwyn ynghyd uwch arweinwyr o'r sector cyhoeddus yng Nghymru i drafod sut yn union y gallant arwain eu sefydliadau mewn ffordd a fydd yn cyfrannu at ysbryd ac amcanion Cymraeg 2050. Mae dwy garfan beilot o arweinwyr ar draws y sector cyhoeddus wedi cwblhau'r rhaglen a dechreuodd y drydedd garfan ar yr hyfforddiant ar 15 Mehefin 2023 sy'n cynnwys uwch reolwyr o'r GIG ac awdurdodau lleol yn unol â'r camau gweithredu yn Mwy na geiriau.
4.	Byddwn yn penodi swyddogion newid diwylliannol cenedlaethol i weithio gyda sefydliadau ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol i hwyluso newid a thrawsnewid, ac i helpu ymarferwyr a rheolwyr canol i oresgyn heriau neu rwystrau wrth ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol.	Llywodraeth Cymru	Tymor Canolig gyda'r broses benodi yn cael ei chynnal yn ystod y 12 mis cyntaf.	<p>Disgwylir i'r cam hwn gael ei gwblhau erbyn 2025 gyda'r broses benodi yn dechrau ym mlwyddyn gyntaf Mwy na geiriau.</p> <p>Mae diffinio rôl y swyddogion newid diwylliannol a'r math o berson sydd ei angen i weithredu'r rôl wedi bod yn heriol. Mae yna nifer o ystyriaethau - a yw hon yn swyddogaeth mentora/hyfforddi, beth sydd bwysicaf – dylanwadu ar sgiliau / dealltwriaeth o sut mae'r GIG / gofal cymdeithasol yn gweithio? Pwy fyddai'n penodi ac yn rheoli'r swyddogion hyn? A oes unrhyw un a all ymgymryd â'r gwaith hwn? Gyda rheolwyr ar ba lefel ddylai'r swyddogion hyn weithio?</p> <p>Mae swyddogion yr iaith Gymraeg ym mhob bwrdd / ymddiriedolaeth iechyd ac awdurdod lleol ac roedd rhai o'r farn bod y swyddogaeth newid diwylliannol eisoes yn cael ei chyflawni gan swyddogion yr iaith Gymraeg.</p> <p>Mewn cyfarfod o'r Bwrdd Cyngori Mwy na geiriau trafododd aelodau rôl y swyddogion newid diwylliannol ac roeddent yn teimlo bod angen diffiniad clir o'r rôl. Cytunodd yr aelodau y dylid gwneud darn newydd o waith i ailddiffinio'r rôl hon a bydd papur ar y pwnc hwn yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Bwrdd Cyngori ym mis Mawrth 2024.</p>

Thema 1

Polisiâu a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg gan gynnwys data

Cyf	Disgrifiad o'r cam gweithredu	Prif atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027	Diweddariad
7.	Sicrhau bod canllawiau a chynlluniau cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn eglur ynghylch gofynion cynllunio ar gyfer y Gymraeg, gweithredu a mesur y broses o gyflawni allbynnau. Bydd hyn yn cynnwys Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ac asesiadau rhanbarthol o anghenion y boblogaeth.	Llywodraeth Cymru	Tymor Byr	Mae Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer y GIG yn cynnwys gofynion cynllunio o ran y Gymraeg sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru a gwneir sylwadau i'w cryfhau os oes angen. Mae'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu nifer o bolisiau, canllawiau a mentrau ar gyfer y GIG a gwasanaethau cymdeithasol sy'n destun Asesiadau Effaith ar y Gymraeg er mwyn ystyried effaith y polisi ar y Gymraeg.
9.	Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi gan gorff priodol i ddod â data am y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol at ei gilydd. Byddai'r adroddiad hwn yn gallu cael ei baratoi a'i gyhoeddi gan Ystadegau Cymru. Dylai'r adroddiad fod ar gael i'r cyhoedd gyda lefel bellach o fanylder ar gael fel sy'n briodol i'r cyrff hynny sy'n gyfrifol am y gweithlu mewn gwahanol gyd-destunau - ee, AaGIC, GCC, Byrddau Iechyd.	AaGIC / GCC, cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Byr/Canolig	Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu'r gwaith hwn.

Cyf	Disgrifiad o'r cam gweithredu	Prif atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027	Diweddariad
10.	<p>Bydd cam gweithredu 30 yn y 'Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' – datblygu canllawiau cynllunio'r gweithlu ar gyfer nodi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol – yn cael ei roi ar waith cyn gynted ag y bo modd. Dylai'r canllawiau hyn ystyried faint o staff â sgiliau Gymraeg sydd eu hangen, a natur y sgiliau hynny mewn gwahanol gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol ac o fewn y meysydd angen â blaenoriaeth.</p> <p>Bydd y canllawiau'n cael eu defnyddio fel rhan o'r gwaith blynyddol i gynllunio'r gweithlu a wneir gan Fyrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, AaGIC, Gofal Cymdeithasol Cymru a chyflogwyr eraill fel y bo'n briodol. Hefyd, bydd y canllawiau'n llywio gwaith yr arolygiaeth a'r rheoleiddwyr perthnasol fel y bo'n briodol.</p>	AaGIC / Gofal Cymdeithasol Cymru	Tymor Byr	<p>Mae Adran Gweithlu a Datblygu Sefydliadol AaGIC wedi llunio strategaeth ddrafft "Cynllunio'r Gweithlu er budd y Gymraeg". Mae awydd ymhlith y Byrddau Iechyd i ddechrau Grŵp Gweithredu o amgylch y strategaeth hon. Er mwyn i hyn gael tyniant priodol, cred AaGIC y gallai fod angen ymrwymo adnoddau sylweddol i symud y gwaith yn ei flaen a'i barhau ar draws yr holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru.</p> <p>Mae GCC wedi gweithio gyda'i dîm mewnol i sicrhau bod categoraiddio sgiliau Gymraeg ar ei gofrestr yn cyfateb i'r lefelau cenedlaethol cydnabyddedig.</p> <p>Mae GCC hefyd wedi gweithio gydag AaGIC a'r Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol i addasu'r gwiriwr Gymraeg sydd ganddyn nhw. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer dulliau mwy cadarn o wirio lefel iaith yn hytrach na dibynnu ar hunanasesiad yn unig.</p> <p>Mae'r pecyn Cymorth Sgiliau iaith Gymraeg ar ddefnyddio'ch sgiliau'n effeithiol yn y gweithlu, yn cael ei adolygu a'i ddigideiddio. Bydd y pecyn cymorth yn helpu cyflogwyr i wneud defnydd effeithiol o sgiliau eu gweithlu er budd a llesiant pobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau, fel y byddent gydag unrhyw sgil arall.</p> <p>Bydd y pecyn cymorth digidol yn fatics sgiliau rhyngweithiol, gan nodi lefel sgiliau cyfredol a bwlch sgiliau. Bydd y bylchau a nodwyd yn llywio pa ofynion hyfforddiant fydd eu hangen, e.e. cwrs mynediad a dysgu sylfaen Gymraeg CAMAU ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.</p> <p>Comisiynodd Gofal Cymdeithasol Cymru Practice Solutions i ymchwilio i 'gyflwr presennol' cynllunio'r gweithlu ledled Cymru ac edrych ar yr hyn sydd ei angen yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr amrywiaeth yn y ffordd y mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn cynllunio'r gweithlu ar gyfer gofal cymdeithasol, a'r angen am fwy o fuddsoddiad i helpu rhai i ddatblygu eu dull gweithredu.</p> <p>Mae GCC yn mynd i ystyried pa gamau ac adnoddau sydd eu hangen yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn gallu ymateb yn effeithiol a chytuno'r rheini gyda'r partneriaid a'r rhanddeiliaid perthnasol.</p> <p>Gellir darllen y crynodeb gweithredol ar wefan GCC drwy'r ddolen ganlynol - Cynllunio gweithlu gofal cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru.</p>
11.	<p>Dylai pwysigrwydd y Cynnig Rhagweithiol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau o safon gael ei gynnwys yn y canllawiau a'r gofynion adrodd ar gyfer y Ddyletswydd Ansawdd a'r safonau iechyd a gofal diwygiedig. Daeth y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) ('y Ddeddf') yn gyfraith ar 1 Mehefin 2020, a bydd yn cael ei gweithredu'n llawn erbyn gwanwyn 2023. Mae hyn yn cynnwys ailffurfio ac ehangu'r ddyletswydd ansawdd bresennol ar gyfrif y GIG</p>	Llywodraeth Cymru	Tymor Byr	<p>Mae'r canllawiau statudol ar gyfer y Ddyletswydd Ansawdd yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg a'r cynllun Mwy na geiriau mae'n gyrru canlyniadau iechyd o safon i bobl Cymru drwy annog sefydliadau i sicrhau mynediad cleifion at wasanaethau yn yr iaith Gymraeg. Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol i ystyriaethau Gymraeg gael eu hymgorffori yn niwylliant ansawdd a chael eu hystyried drwy lens y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal. Rhaid cynnwys cyfrifoldebau iaith Gymraeg mewn adroddiadau ansawdd.</p>

Thema 2

Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol

Cyf	Disgrifiad o'r cam gweithredu	Prif atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027	Diweddariad
14.	14. Byddwn yn disgwyl i holl gydweithwyr y GIG a gofal cymdeithasol ddilyn cwrs ymwybyddiaeth eithyddol, a fydd yn egluro pa mor bwysig yw'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau ac fel un o anghenion cleifion. Ar ôl cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i bob gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, byddwn yn disgwyl i'r hyfforddiant hwn gael ei ddarparu ym mhob disgyblaeth ar gyfer hyfforddeion, a'i gyflwyno fel rhan o'r broses gynefino i weithwyr newydd sydd heb wneud yr hyfforddiant yn barod	Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Canolig	<p>Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gwrs ymwybyddiaeth Cymraeg gorfodol ar gyfer y GIG yr hydref diwethaf (gweler WHC 2022/028) sy'n esbonio pa mor bwysig yw Cymraeg wrth ddarparu gwasanaethau ac i ddiwallu anghenion cleifion. Mae cwrs ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Ofal Cymdeithasol Cymru.</p> <p>Mae cwrs Mwy na geiriau – Mwy na Geiriau: Cyfathrebu mewn Iechyd a Gofal (porth.ac.uk) bellach yn fyw ar wefan y Coleg Cymraeg. Nod yr adnodd yw cyflwyno ymwybyddiaeth iaith mewn iechyd a gofal i fyfyrwyr addysg uwch i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg gyda chleifion a chydweithwyr yn y GIG.</p>
15.	Bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn datblygu ymhellach eu cynlluniau i gynnig hyfforddiant ar y Gymraeg i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn darparu amgylchedd sy'n galluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithleoedd. Dylai hyn ategu'r broses anffurfiol o ddysgu iaith drwy adnoddau ac apiau ar-lein a fydd ar gael ar draws y sector. Gellid modelu hyn ar ddatblygiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer y gweithlu addysg. Dylai hyn gynnwys darpariaeth wedi'i theilwra i gefnogi ymarfer ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a dod o hyd i gyfleoedd (law yn llaw â chyflogwyr perthnasol) i gynyddu hyder staff i ddefnyddio mwy ar eu sgiliau Cymraeg ar ba lefel bynnag yn y gweithle. Rydym hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa adnoddau sydd eu hangen i ddarparu cefnogaeth ddigonol ar gyfer cynllun o'r fath, gan gynnwys helpu cyflogwyr i ryddhau staff allweddol i fynd ati o ddifrif i ddysgu Cymraeg.	Llywodraeth Cymru / Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	Tymor Canolig	<p>Efallai y bydd nifer sylweddol o staff sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu siarad Cymraeg, ond efallai nad ydynt wedi defnyddio eu Cymraeg ers peth amser gan nad oes ganddynt yr hyder i ddefnyddio'r iaith. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi datblygu Rhaglen Dysgu Cymraeg Iechyd a Gofal mewn ymateb i'r cynllun Mwy na geiriau ac maent wedi sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer hyn gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u cynllun Cymraeg Gwaith. Dyma'r tro cyntaf i'r Ganolfan weithredu cynllun cenedlaethol yn benodol ar gyfer y sectorau iechyd a gofal.</p> <p>Gwnaed cyflwyniad i Fwrdd Arweinyddiaeth GIG Cymru ym mis Ebrill 2023, a chafodd y cynnig ei gefnogi'n gryf. Mae'r Ganolfan wedi penodi Uwch Swyddog Prosiect i arwain ar y gwaith hwn. Bydd saith tiwtor llawn amser yn cael eu lleoli yn y byrddau iechyd canlynol, a byddant yn gweithredu cynlluniau penodol y cytunwyd arnynt gyda phob bwrdd iechyd. Bydd y Ganolfan Genedlaethol yn monitro ac yn olrhain yr hyn sy'n cael ei gyflawni gyda phob prosiect.</p> <p>Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr Bwrdd Iechyd Bae Abertawe Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan Bwrdd Iechyd Powys Bwrdd Iechyd Hywel Dda</p> <p>Yn ogystal â'u gwaith gyda'r byrddau iechyd, bydd y tiwtoriaid yn darparu cymorth i godi hyder yn yr ymddiriedolaethau iechyd yn unol â chapasiti a galw. Yn ogystal â gosod tiwtoriaid gyda'r byrddau iechyd, mae'r ganolfan hefyd mewn trafodaethau i dreialu amrywiol brosiectau llai gyda chynulleidfaoedd penodol gan gynnwys Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.</p>

Cyf	Disgrifiad o'r cam gweithredu	Prif atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027	Diweddariad
16.	Bydd sefydliadau yn diffinio lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ym mhob hysbyseb swydd, yn unol â'r arferion gorau a welir mewn rhai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol.	Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Canolig (Datblygu a rhannu canllawiau yn y tymor byr)	<p>Mae galw am arweiniad ar lefel genedlaethol i ddiffinio lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ym mhob hysbyseb swydd. Mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau strategaeth sgiliau dwyieithog sy'n rhoi arweiniad i reolwyr recriwtio ar sut i gael mynediad at ofynion iaith swyddi – ond ni ddilynir y canllawiau hyn bob amser. Mae un sefydliad wedi cydnabod bod nifer y swyddi sydd wedi cael eu hysbysebu fel Cymraeg hanfodol, a/neu gyda lefel o Gymraeg wedi ei diffinio'n benodol, yn isel.</p> <p>Mae dogfen "Cynllunio gweithlu strategol ar gyfer y Gymraeg" AaGIC yn ymdrin â'r pwynt hwn ac yn helpu i symud yr agenda ymlaen yn sylweddol. Mae awydd ymhlith y Byrddau Iechyd hefyd i ddechrau Grŵp Gweithredu o amgylch y ddogfen hon.</p>
17.	Cyflwyno'n raddol lefel "cwrteisi" sylfaenol o sgiliau Cymraeg, gan wneud staff yn fwy ymwybodol o'r effaith gadarnhaol y gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg ei chael ar unigolion sy'n defnyddio ac yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Erbyn diwedd oes y cynllun hwn, dylai pob aelod o staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol fod â lefel cwrteisi o sgiliau Cymraeg.	Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Byr – Cyflwyno Tymor Hir – bod gan bob aelod o staff lefel cwrteisi o sgiliau Cymraeg	<p>Mae grŵp yn cael ei sefydlu i fwrw ymlaen â'r weithred hon ac i lunio canllawiau a fydd yn cael eu cyhoeddi'n ganolog gan Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn arwain ar y gwaith o ddatblygu cwrs cwrteisi gyda rhanddeiliaid perthnasol.</p>
20.	Bydd Gyrfa Cymru/AaGIC a GCC yn hyrwyddo pwysigrwydd sgiliau Cymraeg a'r cyfleoedd posibl a ddaw yn sgil hynny mewn gyrfaedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio adnoddau porth Tregyrfa a thrwy sioeau teithiol a sesiynau ymgysylltu â phobl ifanc.	Gyrfa Cymru / AaGIC a GCC	Tymor Byr/Tymor Canolig	<p>Mae AaGIC wedi datblygu Porthol Tregyrfa a ddyluniwyd i dargedu siaradwyr Cymraeg ac mae eisoes yn cael ei ddefnyddio i ddenu gweithlu'r GIG yn y dyfodol.</p> <p>Mae AaGIC hefyd wedi mynychu nifer o ffeiriau gyrfa/ digwyddiadau cyhoeddus lle mae'r stondin wedi bod yn gwbl ddwyieithog i sicrhau eu bod yn gallu ymateb i anghenion siaradwyr Cymraeg a allai fod yn ystyried gyrfaedd yn y GIG. Fodd bynnag, er mwyn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd i gynnal deialog gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg a denu mwy o sgiliau Cymraeg i'r GIG, mae AaGIC yn dweud bod angen mwy o adnoddau arnynt.</p> <p>Ym mis Ebrill 2023 cynhaliodd Gofal Cymdeithasol Cymru ymgyrch iaith Gymraeg genedlaethol drwy Gofalwn Cymru. Pwrpas hyn oedd ceisio gwella hyder y rhai sy'n gweithio yn y sector ac sydd eisoes â sgiliau Cymraeg ac annog gweithwyr i ddysgu Cymraeg. Gwnaethom dynnu sylw at Mwy na geiriau a'r cynnig rhagweithiol i'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth. Roedd erthyglau papur newydd, hysbysebion radio a negeseuon cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Mae digwyddiadau rhithwir wedi cael eu cynnal gyda Gyrfa Cymru i fyfyrwyr blwyddyn 10-12 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, i godi ymwybyddiaeth o sut a pham mae'r Gymraeg yn sgil werthfawr yn y sector gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar. Mae'r sesiynau wedi cael eu croesawu a derbyniwyd adborth cadarnhaol. Mae rhai o'r sesiynau wedi'u recordio ac yn cael eu defnyddio fel adnoddau ar borth Gyrfa Cymru.</p> <p>Gwelwyd yr ymgyrch gan:</p> <p>LinkedIn: 24k vs 7,500 wedi cynllunio</p> <p>TikTok: 113k vs 80,000 wedi cynllunio</p> <p>Snapchat: 69l vs 60,000 wedi cynllunio</p> <p>Facebook/Instagram: 1.1m vs 623,392 wedi cynllunio</p>

Cyf	Disgrifiad o'r cam gweithredu	Prif atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027	Diweddariad
21.	Bydd AaGIC, CCAUC a GCC yn monitro nifer y myfyrwyr dwyieithog sy'n hyfforddi i fod yn weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol bob blwyddyn, yn unol â'r fframwaith y cytunwyd arno ar gyfer mesur sgiliau Cymraeg, ac yn cyhoeddi'r data bob blwyddyn. Gallai hyn adlewyrchu neu adeiladu ar ofynion sydd eisoes ar waith mewn perthynas â chontractau AaGIC, monitro GCC a/neu ddata HESA. O ran cyhoeddi'r data, rydym yn argymhell bod tabl penodol yn cael ei gynnwys yn y Bwletin Ystadegau blynyddol – Yr iaith Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch i adrodd ar y data yma. Bydd y data yma hefyd yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu dangosfwrdd, fel sy'n cael ei amlinellu o dan Adran 4.	AaGIC / CCAUC a GCC	Tymor Byr	<p>Mae'n ymddangos bod gan ffurflenni data cychwynnol o Sefydliadau Addysg Uwch lefelau da o ymateb ar ddata Cymraeg myfyrwyr yn unol â'u gofynion cytundebol. Mae AaGIC yn disgwyl cael y set lawn o ddata ym mis Tachwedd.</p> <p>Mae gan GCC rôl reoleiddiol wrth ddilysu, adolygu a sicrhau ansawdd y radd gwaith cymdeithasol rheoledig a rhaglenni ôl-raddedig. Rhaid i bob rhaglen gael cynllun gweithredu yn y Gymraeg i hyrwyddo ac ymgorffori cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu a chael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno a'u hadolygu fel rhan o brosesau monitro blynyddol.</p> <p>Ar hyn o bryd mae Prifysgol Bangor yn cynnig MA cyfrwng Cymraeg lle gall y rhai sy'n ceisio dod yn Weithwyr Cymdeithasol gwblhau eu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar gyfer blynyddoedd academaidd 2022-23 derbyniodd 23 o fyfyrwyr fwsariaeth gan GCC, 10 myfyrwyr Lefel 1 a 13 o fyfyrwyr Lefel 3. Ni chafodd chwech arall fwsariaeth ond buont yn astudio yno. Mae hynny'n golygu cyfanswm o 29 o Weithwyr Cymdeithasol posib sydd wedi'u hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Ar hyn o bryd nid oes mecanwaith i gasglu data ar nifer y gweithwyr Gofal Cymdeithasol sy'n cwblhau hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd GCC yn gweithio gyda Cholegau Cymru i benderfynu a ellir cynnwys hyn mewn ffurflenni yn y dyfodol.</p>
22.	Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro nifer y prentisiaid a'r dysgwyr dwyieithog sy'n dilyn cyrsiau a/neu brentisiaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol bob blwyddyn, yn unol â'r fframwaith y cytunwyd arno ar gyfer mesur sgiliau Cymraeg, ac yn cyhoeddi'r data bob blwyddyn. Bydd y data yma hefyd yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu dangosfwrdd, fel sy'n cael ei amlinellu o dan Adran 4.	Llywodraeth Cymru	Tymor Byr	Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn monitro nifer y dysgwyr dwyieithog a'r prentisiaethau sy'n ymgymryd â chysiau a/neu brentisiaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol. Disgwylir y data yn fuan.
23.	<p>Mae Llywodraeth Cymru / CCAUC wedi sefydlu meincnod ar gyfer darpariaeth ddwyieithog – hynny yw, bod traean o gwrs (o leiaf) ar gael yn Gymraeg. Mae meincnod o'r fath yn galluogi myfyrwyr sy'n hyderus yn y Gymraeg i ddilyn rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ddatblygu lefel o hyder i weithio'n ddwyieithog. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu arferion gorau rhyngwladol – ee, Ysgol Feddygol Prifysgol Helsinki</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd AaGIC / GCC yn gweithio gyda phrifysgolion yng Nghymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i nodi unrhyw gyrsiau lle na all y myfyrwyr ar hyn o bryd astudio traean o'u cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddwyieithog, ac yn cymryd camau priodol i sicrhau bod darpariaeth ddwyieithog yn cael ei chynnig ar bob cwrs iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd lleoliadau hefyd yn cael eu hystyried yn briodol, a bydd myfyrwyr yn cael cefnogaeth i ymgymryd â lleoliadau dwyieithog fel rhan o'u hyfforddiant. 	AaGIC / GCC / Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Tymor Byr	<p>Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng AaGIC a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn y lle cyntaf, mae AaGIC wedi rhannu rhestr o'r holl gyrsiau y maent yn eu hariannu gyda nhw, a byddant yn rhoi gwybod iddynt faint o Gymraeg sy'n cael ei darparu ar bob cwrs.</p> <p>Mae GCC wedi ymgymryd â gwaith dros dro ar hyn gyda'i dîm Ansawdd Addysg. Mae mwy o waith ar hyn wedi'i gynllunio ar gyfer 2023-24.</p>

Cyf	Disgrifiad o'r cam gweithredu	Prif atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027	Diweddariad
24.	Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pa gymelliadau (ariannol neu fel arall) y gellir eu cynnig i fyfyrwyr sy'n gwneud elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cymelliadau eisoes yn cael eu cynnig mewn perthynas â'r gweithlu Addysg.	Llywodraeth Cymru	Tymor Byr	Trafodaehau'n parhau.
25.	Rhoddir ystyriaeth i ehangu Doctoriaid Yfory, cynllun hynod llwyddiannus sy'n helpu darpar fyfyrwyr i wneud cais llwyddiannus i ysgol feddygol, i gynnwys yr holl broffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol lle mae'r broses ymgeisio i astudio yn y Brifysgol yn un gystadleuol. Yn fwy cyffredinol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a allai cynllun o'r fath helpu disgyblion o gefndiroedd difreintiedig i wneud cais llwyddiannus i astudio meddygaeth a phynciau eraill.	Llywodraeth Cymru	Tymor Byr	Mae Doctoriaid Yfory bellach yn rhan o'r ffrwd Ehangu Mynediad a drosglwyddir i AaGIC yn parhau i gefnogi'r prosiect.
26.	Bydd pob darparwr hyfforddiant iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn paratoi cynllun tymor canolig ar ddatblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sgiliau dwyieithog eu myfyrwyr, ac yn cyflwyno'r cynllun o fewn 12 mis i'r corff comisiynu / achredu / rheoleiddio perthnasol. Dylai'r rhain gynnwys manylion y capasiti addysgu sydd ei angen i gyflwyno rhaglenni dwyieithog yn ôl yr angen. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y rôl y gallai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei chwarae i adolygu a darparu adborth a chynngor i'r cyrff perthnasol ar y cynlluniau tymor canolig	Darparwyr hyfforddiant iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Byr	<p>Mae AaGIC yn adrodd nad oes gofyn penodol i'r gofyniad hwn yn ei gontractau presennol gydag SAU. Bydd cyfarfod mewnol yn AaGIC yn cael ei gynnal i adolygu'r sefyllfa a chadarnhau dull AaGIC o gael y cynlluniau hyn.</p> <p>Er mai cyfrifoldeb Cymwysterau Cymru a chonsortium y corff dyfarnu (Dysgu Iechyd a Gofal Cymru) fyddai gorfodi'r dull o ymdrin â chynlluniau'r Gymraeg o fewn darpariaeth hyfforddi, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn datblygu ac yn darparu gweithgarwch a fydd yn cefnogi'r gweithlu yn y maes hwn.</p> <p>Mae GCC wedi bod yn datblygu modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae yn y camau olaf o ddatblygiad. Mae'r modiwl yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cysgod hanes (hanes byr o'r Gymraeg) • deddfwriaeth a'r cynnig rhagweithiol • pam mae defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn bwysig • Cartref oddi Cartref (ffilm fer yn dangos effaith dementia a'r Gymraeg) • mwy o adnoddau i gefnogi ymwybyddiaeth a datblygiad iaith • y camau nesaf. <p>Bydd yr adnodd hwn ar gael i bobl sy'n dod i mewn i'r sector a gweithwyr presennol. Bydd hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth, a sut a pham mae'r Gymraeg yn sgil ar unrhyw lefel ac yn rhan annatod o ofal.</p> <p>Maent hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu cyrsiau Camau penodol ar gyfer gofal cymdeithasol ar gyfer y sector.</p> <p>I'r Camau Mynediad sydd eisoes wedi cael eu lansio mae:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 155 o ddysgwyr yn cyrchu fersiwn Gogledd Cymru • cofrestrodd 114 o ddysgwyr ar gyfer fersiwn De Cymru • 166 o ddysgwyr wedi cofrestru i gyd. <p>Bydd modiwl 20 awr cyntaf cwrs sylfaen Camau yn barod i'r sector ddechrau erbyn diwedd mis Medi.</p>

Thema 3

Rhannu arferion gorau a dull galluogol

Cyf	Disgrifiad o'r cam gweithredu	Prif atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027	Diweddariad
29.	Byddwn yn casglu ac yn rhannu enghreifftiau o arferion da arloesol sy'n bosibl ar draws y sector gan ddefnyddio safleoedd porth a hybiau sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys yr Hybiau Ymchwilio ac Arloesi.	Llywodraeth Cymru / Swyddogion y Gymraeg	Tymor Byr	<p>Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn datblygu ardal o'u e-lyfrgell i fod yn borth ar gyfer rhannu enghreifftiau o arfer da arloesol a bydd hyn ar gael ar draws y sector iechyd a gofal.</p> <p>Mae Uned Polisi'r Gymraeg yn GIGC wedi gwahodd cynrychiolwyr yr Hybiau Cydlynu Ymchwilio, Arloesi a Gwella i un o'r cyfarfodydd chwarterol y mae'n eu cynnal gyda swyddogion Cymraeg y GIG i drafod sut y gall y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau gydweithio â'r hybiau o safbwynt y Gymraeg.</p>
30.	Byddwn yn defnyddio'n Pecyn Cymorth Technegol Dwjyieithog i sicrhau bod y gwasanaethau digidol yr ydym yn eu caffael a/neu'n datblygu yn cynnwys rhyngwyneb defnyddiwr dwjyieithog lle bo hynny'n bosibl. O ran gwefannau gwybodaeth a chyngror byddwn yn dod a chyfieithwyr yn agosach at y broses creu cynnwys, gan gyd-ddrafftio yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel ein bod yn cyfathrebu yn gliriach yn y ddwy iaith.	Iechyd a Gofal Digidol Cymru / Sefydliadau'r GIG	Tymor Byr	<p>Cyflwynwyd Ap GIG Cymru sydd wedi'i ddatblygu yn ddwyieithog gyda siaradwyr Cymraeg yn profi prototeipiau mewn sesiynau un-i-un. Adeiladwyd swits dewis iaith i mewn i'r ap ac mae iaith yr ap yn cael ei ddewis yn ddiodyn yn seiliedig ar yr iaith sydd wedi cael ei ddewis fel iaith eich dyfais symudol. Mae modd hefyd gadael adborth yn Gymraeg.</p> <p>Mae nifer o sefydliadau yn defnyddio meddalwedd Cof Cyfieithu ac yn edrych ar y posibiladau o rannu'r adnodd hwn gydag eraill a bydd hynny yn gwella amserau cyfieithu a hefyd yn arwain at safoni terminoleg yn well a fydd yn y pen draw yn gwella gofal cleifion.</p>
32.	Byddwn yn sicrhau bod Arweinwyr Gweithredol, Hyrwyddwyr a Swyddogion y Gymraeg yn cwrdd yn genedlaethol i rannu arferion gorau er mwyn sicrhau dull cyson o ymdrin â materion allweddol a datblygu mentrau i dathlu llwyddiannau, gan gynnwys hyrwyddo Mwy na geiriau mewn cynlluniau gwobrau ac anrhydeddau sydd eisoes yn bodoli	Llywodraeth Cymru / Cyrff Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Tymor Byr	<p>Mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau grwpiau mewnol i helpu i brif ffrydio'r Gymraeg. Mae swyddogion Cymraeg y GIG hefyd yn cyfarfod bob chwarter gyda Llywodraeth Cymru i drafod materion sy'n ymwneud â gweithredu'r camau gweithredu yn Mwy na geiriau. Mae yna hefyd Grŵp Rheolwyr y Gymraeg sy'n cyfarfod i rannu arfer gorau a thrafod gweithredu Mwy na geiriau.</p> <p>Nid oes unrhyw anrhydedd cenedlaethol yn benodol ar gyfer Mwy na geiriau, ond mae gan rai byrddau / ymddiriedolaethau iechyd anrhydeddau mewnol i gydnabod unigolion a thimau sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol mewn meysydd penodol. Does gan Wobrau'r GIG blynyddol ddim categori Cymraeg penodol ond fe allai'r Gymraeg ymddangos mewn nifer o'i chategorïau presennol, fel "gwella iechyd a llesiant" neu "ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn".</p> <p>Mae yna rôl i Lywodraeth Cymru arwain ar sicrhau bod arweinwyr gweithredol y Gymraeg a swyddogion a phencampwyr Cymraeg yn cyfarfod yn genedlaethol i rannu arfer gorau a dathlu llwyddiant ac i hyrwyddo Mwy na geiriau o fewn cynlluniau gwobrau presennol.</p>

Cyf	Disgrifiad o'r cam gweithredu	Prif atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027	Diweddariad
33.	Byddwn yn cynnal arolwg gyda darparwyr gofal sylfaenol i ddeall effaith dyletswyddau ynghylch y Gymraeg ar ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol. Bydd yr arolwg yn dangos yr arferion gorau ac yn rhoi cyngor i Gyfarwyddwyr Gweithredol Gofal Sylfaenol er mwyn datblygu a gwella gwasanaethau Cymraeg ymhellach, gan weithio'n agos gyda'r clystyrau.	Byrddau Iechyd a Chlystyrau Gofal Sylfaenol	Tymor Canolig	Ar hyn o bryd nid yw safonau'r Gymraeg yn berthnasol i ddarparwyr annibynnol. Ond mae'n rhaid iddyn nhw ddilyn dyletswyddau iaith Gymraeg. Mae'r fanyleb ar gyfer yr arolwg hwn yn cael ei llunio ar hyn o bryd gyda'r bwriad o gyhoeddi'r arolwg yn gynnar yn 2024.
35.	Mae arwyddion gweledol nid yn unig yn galluogi defnyddwyr gwasanaethau i wybod pa staff sy'n siarad Cymraeg, maen nhw hefyd yn cyfleu neges bod y Gymraeg yn rhan 'arferol' o'r broses bob dydd o ddarparu gwasanaeth, ac yn adeiladu ar ethos o berthyn. Byddwn yn ymestyn y prosiect iaith Gwaith ledled Cymru er mwyn i weithwyr sy'n gallu cynnig gwasanaethau'n Gymraeg, neu'n rhannol gynnig gwasanaethau'n Gymraeg, allu dangos hynny'n rhwydd drwy wisgo bathodyn neu laniard iaith Gwaith. Bydd ein systemau TGCh hefyd yn casglu, yn dangos ac yn rhannu gwybodaeth sy'n rhoi gwybod i ni fel unigolion a staff pwy sy'n gallu siarad Cymraeg a pha wasanaethau y byddan nhw'n eu cynnig yn Gymraeg – er mwyn i ni allu defnyddio ein Cymraeg gyda nhw. (Mae'n bosibl bydd angen cyllid/ adnoddau ychwnegol er mwyn cyflawni hyn)	Llywodraeth Cymru / Iechyd a Gofal Digidol Cymru / Cyrff Iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Byr	Mae'r rhan fwyaf o staff cymwys yn gwisgo marcwyr gweledol (fel bathodyn iaith Gwaith) i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg ac i gyfleu'r neges bod y Gymraeg yn rhan "normal" bob dydd o ddarparu gwasanaethau. Dywedodd un bwrdd iechyd, er na allent fod yn sicr bod pob siaradwr Cymraeg yn gwisgo bathodyn iaith Gwaith neu laniard, eu bod wedi gweld cynnydd sylweddol yn y ceisiadau am fathodyn iaith Gwaith o ganlyniad i'r hyfforddiant gorfodol i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Dywedodd rhai hefyd yr hoffent gael cyllid i gynhyrchu deunydd <i>iaith Gwaith</i> . Cynhaliodd un bwrdd iechyd gynllun Siopwr Cudd blynyddol i weld a oedd gan staff a derbynfydd farcwyr gweledol i ddangos bod gwasanaeth Cymraeg yn cael ei ddarparu – mae hon yn fenter y gallai eraill ei dilyn. Mae rhai byrddau iechyd wedi mynd ymhellach drwy ddefnyddio logos i adnabod siaradwyr Cymraeg ar y wardiau. Er enghraifft, dywedodd un bwrdd iechyd fod ganddo Gynllun Dewis Iaith sydd wedi ennill gwobr gyda magnetau "Cymraeg" i adnabod cleifion Cymraeg eu hiaith – a hwyluso darparu gwasanaethau dwyieithog a'r egwyddor "Cynnig rhagweithiol" yn ei wardiau. Roedd hefyd yn defnyddio STREAM – offeryn cynllunio rhyddhau a ddatblygwyd yn fewnol, sydd wedi'i gynllunio i gefnogi llif cleifion o fewn lleoliadau gofal iechyd. Mae'r system STREAM yn darparu gwybodaeth am ddewisiadau ieithyddol unigol pob claf: gan ddefnyddio data sy'n cael ei dynnu'n awtomatig o WPAS, mae fersiwn ddigidol o'r bathodyn "Iaith Gwaith" oren yn cael ei arddangos ar y sgrin. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff sy'n defnyddio STREAM yn cael gwybod am bresenoldeb cleifion Cymraeg eu hiaith ar eu wardiau. Mae bwrdd iechyd arall wedi datblygu datrysiaid arloesol i arddangos a rhannu gwybodaeth i gleifion, gan gynnwys dewis iaith ar fyrddau gwyn. Nodwedd arall o'r system yw'r rhestr sy'n caniatáu i staff glicio ar symbol a gweld yr holl gleifion y mae'r symbol hwnnw wedi'i ddefnyddio ar eu cyfer a lle mae'r cleifion wedi'u lleoli. Felly, gall staff weld pa gleifion sy'n siarad Cymraeg, a chynllunio rowndiau wardiau yn unol â hynny i ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Mewn rhai sefydliadau, er y gall systemau ddal dewis iaith, mae hyn yn dibynnu ar gwblhau'r maes dewis iaith a'r gallu i ddarparu'r gwasanaeth, er enghraifft gyda gwasanaeth GIG 111 a CAS (Gwasanaeth Asesu Clinigol). Mae swyddogion yn GCC yn parhau i fachu ar bob cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau, yn rhithiol ac wyneb yn wyneb gyda'r sector gofal cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o Mwy na geiriau a'r adnoddau sydd ar gael i'w cefnogi i ddarparu gwasanaeth dwyieithog a gwneud y Cynnig Rhagweithiol.
37.	Byddwn yn datblygu ymhellach adnoddau geiriadurol, corpws terminoleg o safon uchel, systemau cof iaith ac adnoddau ymarferol i helpu staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, er enghraifft Gair i Glaf. Yn y tymor byr, bydd hyn yn cynnwys swyddogion y Gymraeg a chyfieithwyr yn cydweithio ar gasglu a chyfuno termau ynghyd â gallu a chapasiti cyfieithu.	Llywodraeth Cymru / Cyrff Iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Byr – cydweithio ar ddatblygu termau safonol Tymor Hir – corpws terminoleg iechyd a gofal cymdeithasol	Mae nifer o sefydliadau wedi buddsoddi'n sylweddol yn eu hadnoddau cyfieithu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, mae gan un bwrdd iechyd 3.5 cyfieithydd mewnol a oedd wedi cyfieithu dros 956k o eiriau yn ystod y cyfnod adrodd gyda 117k o eiriau'n cael eu cyfieithu gan asiantaethau allanol. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ddatblygu cronfa ddata derminolegol i'w defnyddio gan gyfieithwyr y GIG ledled Cymru. Maen nhw hefyd yn gweithio gyda sefydliadau iechyd eraill i ddefnyddio'r un feddalwedd cof cyfieithu - byddai hyn yn helpu i leihau costau ac amser. Fodd bynnag, mae angen datblygu offeryn mwy ymarferol i gefnogi staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, er enghraifft Gair i Glaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau trafodaethau cychwynnol gyda'r bwriad o sefydlu grŵp o randdeiliaid i ddatblygu corpws terminolegol ar gyfer y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhestr o Fyrddodau ac Acronymau

Talfyriad	Disgrifiad
AaGIC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
ADSS Cymru	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
GCC	Gofal Cymdeithasol Cymru
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
HESA	Higher Education Statistics Agency (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch)
IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
MNG	Mwy na geiriau
ORCHA	Sefydliad ar gyfer adolygu apiau gofal ac iechyd
SAU	Sefydliadau Addysg Uwch
TG	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
WHC	Cylchlythyr Iechyd Cymru
WPAS	System Gweinyddu Cleifion Cymru